

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 12 2024

154.11.24 Presennol:- Cynghorwyr :- Gwilym Jones, Aled Griffith (Cadeirydd), Alwyn Gruffydd, Michael Roberts, Karena Owens, Glenda Murray, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards
Marian Roberts (Clerc)

155.11.24 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :- John Gwynedd Roberts, Llywelyn Rhys, Trefor Jones

156.11.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Llawn Hydref 8 2024

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

Cyfarfod Arbennig Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Hydref 18 2024

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Aled Griffith yn eilio.

157.11.24 Adroddiad y Clerc

Cafwyd diweddariad ar y canlynol :-

Cors Borth y Gest – nodwyd fod perchennog y safle wedi derbyn rhybudd gorfodi gan Gyngor Gwynedd i glirio'r safle.

Yswirio gwaith celf Howard Bowcott – nodwyd mai £23.74 yn ychwanegol i'r primiwn yswiriant blyneddol fyddai costau yswirio 3 darn o waith celf Howard Bowcott.

Safle'r syrjery newydd – nodwyd bod cyfarfod wedi bod rhwng aelodau swyddogion Betsi Cadwaladr, Cyng Gwilym Jones, Cyng Nia Jeffreys, Cyng June Jones â Mabon ap Gwynfor i gael diweddariad ar y sefyllfa. Nid oes symud ymlaen hyd nes cynhelir astudiaeth dichonoldeb cyn diwedd Mawrth 2025.

Sul y Cofio – y gwasanaeth wedi mynd yn dda. Nodwyd bod angen sustem sain P.A. er mwyn sicrhau fod y gynulleidfa yn clywed y gwasanaeth. Nodwyd mai cyfrifoldeb y Lleng Brydeinig yw trefnu hyn ac nid y Cyngor Tref.

Goleuo Port – rhanwyd posteri yn hysbysebu'r noson a rhanwyd taflen i'r Cynghorwyr nodi eu lleoliad a'u dyletswydd ar y noson

158.11.24 Datgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

159.11.24 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0814/44/HY (wedi ebostio 11.10.24)

Lleoliad / Location: Stead & Simpsons, 91 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9EU

Bwriad / Proposal: Cais ôl-weithredol i gadw 3 arwydd (1 wedi goleuo)

Retrospective application to retain 3 signs (1 illuminated)

Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad ond datgan pryder fod cymaint o lefydd bwyta / caffis yn cael eu sefydlu ar Stryd Fawr Porthmadog yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C24/0767/44/AC (wedi ebostio 11.10.24)

Lleoliad / Location: Ty Moelwyn, Porthmadog, LL49 9AB

Bwriad / Proposal: Amrywio amod 10 a atodir i gais cynllunio C18/0520/44/LL i alluogi cyflwyno Aseiad ar

Ddesg a manylion cynllun lliniaru amgen sy'n cynnwys byrddau gwybodaeth.
Variation of condition 10 attached to planning application C18/0520/44/LL to enable the submission of a Desk Based Assessment and details of an alternative mitigation scheme comprising of information boards.

Penderfynwyd :- wedi penderfynu arno eisoes yng nghyfarfod Is-Bwyllgor Eiddo 18.10.24.

© Rhif Cais / Application No.: C24/0875/44/LL (wedi ebostio 23.10.24)

Lleoliad / Location: Byw'n Iach Glaslyn, Porthmadog, LL49 9HX

Bwriad / Proposal: Ailddatblygu MUGAs presennol i greu cae synthetig 3G newydd gydag ardal wylwyr, ffensys perimedr 3m a system oleuadau llifogydd newydd.

Redevelopment of existing MUGAs to create a new 3G synthetic pitch with spectator area, 3m perimeter fencing and new floodlighting system

Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad.

(ch) Rhif Cais / Application No.: C24/0876/44/LL (wedi ebostio 23.10.24)

Lleoliad / Location: 25 Cefn London, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NN

Bwriad / Proposal: Maes parcio cyhoeddus arfaethedig ar gyfer 30 lle.

Proposed 30-space public car park.

Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol :-

- Lleoliad anodd i gael mynediad iddo
- Lôn gul iawn yn arwain ato
- Biniau siopau a busnesau'r Stryd Fawr yn culhau'r lôn
- Tai preswyl cyfagos
- Llygredd sŵn / nwyon traffig

yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Karena Owens yn eilio.

(d) Rhif Cais / Application No.: C24/0832/44/TC (wedi ebostio 25.10.24)

Lleoliad / Location: Malindi, 12 Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UB

Bwriad / Proposal: Defnyddio eiddo fel defnydd cymysg ail gartref (C5) a llety gwyliau tymor byr (C6)

Use of property as second home (C5) and short-term holiday let (C6)

Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad i ddefnydd cymysg ail gartref (C5)

Gwrthwynebu llety gwyliau tymor byr (C6)

(dd) Rhif Cais / Application No.: C23/0916/05/LL (wedi ebostio 30.10.24)

Lleoliad / Location: Chwarel Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth, LL48 6HP

Bwriad / Proposal: Cais ar gyfer defnyddio tir i storio, trin ac ailgylchu gwastraff anadweithiol/ddim yn

beryglus yn deillio o'r gwaith Darpariaeth Effaith Weledol Eryri / Application for the use

of land for Storing and treating and recycling inert/non-hazardous waste arising from

works related to the Eryri Visual Impact Provision (SVIP) Project

Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad

MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

160.11.24 Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 18.10.24

Penderfynwyd :- Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 18.10.24 yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

161.11.24 Penderfynu ar arwyddo cytundeb Cyngor Gwynedd i gymryd cyfrifoldeb am waith celf Howard Bowcott (gweler Gohebiaeth 11)

Penderfynwyd :- mynd ymlaen i drefnu'r yswiriant a'r Cadeirydd i arwyddo'r cytundeb gyda Chyngor

Gwynedd.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra'n trafod cynigion y Cadeirydd, Aled Griffith.

162.11.24 Cyng Aled Griffith :- cynnig holi Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd a oes gan y perchennog yr hawl i newid bwyty i dafarn a newid steil yr arwyddion sydd yn uniaith Saesneg.

Trafodwyd un busnes lleol sydd wedi newid yn ddiweddar o fod yn dŷ bwyta i fod yn rhyw fath o glwb nos / bar coctels. Clywyd fel yr oedd cwynion wedi dod i law ynglyn â'r sŵn ychwanegol sydd yn tarfu ar drigolion cyfagos; a bod pobl yn ymgynnull y tu allan yn hwyr yn y nôs
Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig gan ofyn hefyd am eglurhâd ar y rheolau ynglyn â thrwyddedu ac oriau agor ar gyfer sefydliadau o'r fath, Cyng Carol Hayes yn eilio.

163.11.24 Cyng Aled Griffith :- cynnig cynnwys pob aelod o'r Cyngor Tref ar yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Glenda Murray yn eilio.

Dychwelodd Cyng Aled Griffith i gadeirio'r cyfarfod.

164.11.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig cysylltu gyda'r adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn iddynt dorri'r coed sydd yn y parc cyn gynted â phosibl ar ôl i R.J.Electrics dynnu'r goleuadau Nadolig oddi arnynt ar 6.1.25.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

165.11.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig tynnu y baneri i gyd i lawr cyn y Nadolig (ar wahân i'r baneri newydd sydd wedi cael eu gosod yn ddiweddar gan Portmeirion).

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Michael Roberts yn eilio.

166.11.24 Cyng Karena Owens :- Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn llythyru â Pharc Cenedlaethol Eryri yn eu hannog i oedi'r penderfyniad i werthu Plas Tan y Bwlch er mwyn sicrhau amser teg i'r gymuned ystyried y posibiladau ar gyfer yr adeilad/lleoliad.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Glenda Murray yn eilio.

167.11.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhagfyr 10 2024 = Rhagfyr 1 2024, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Dr Melfyn Edwards :-** cynnig gofyn i'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar sefyllfa Cors Borth y Gest.
- **Cyng Alwyn Gruffydd :-** cynnig cynnal cyfarfod cyhoeddus i gael pobl at ei gilydd i drefnu dathliad dau canmwyddiant yr harbwr.

168.11.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- ail-yrru gohebiaeth parthed 200mlwyddiant yr harbwr i'r Harbwrfeistr; yr Amgueddfa Forwrol; Ysgol Eifion Wyn; ac Ysgol y Gorlan a chopi ohono i Reilffordd Ffestiniog.

GOHEBIAETH :

| | | |
|-----------|---|---|
| 169.11.24 | NIA HELEDD REES | Cais i dalu am weithdy llusernï Nadolig i'r Clwb Ieuenctid Penderfynwyd :- cytuno i dalu yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio. |
| 170.11.24 | LOWRI HAF EVANS C.G. | Cyfarfod cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i lenwi'r ffurflen ar ran y Cyngor Tref i nodi'r cais am well defnydd o'r Gymraeg ar eu gwasanaeth yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio. |
| 171.11.24 | HANNAH JOYCE C.G. 14.10.24 / 24.10.24 / 8.11.24 /11.11.24 | Llechi ar balmentydd Porthmadog Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chytuno i fynd ymlaen gyda'r gwaith. |
| 172.11.24 | YSGOL EIFIONYDD | Ymateb i 131.10.24 dathlu dauganmlwyddiant yr harbwr Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. |
| 173.11.24 | YSGOL BORTH Y GEST | Ymateb i 131.10.24 dathlu dauganmlwyddiant yr harbwr Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. |
| 174.11.24 | REBECCA EVANS A.S. | Ymateb i 95.9.24 newid enwau tai Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. |
| 175.11.24 | HANNAH JOYCE C.G | Cynllun arwyddion Porthmadog Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chytuno i fynd ymlaen gyda'r gwaith. |
| 176.11.24 | COMISIYNYDD POBL HÏN | Ymateb i 148.10.24 T2 yn osgoi Tremadog Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth |
| 177.11.24 | HAYDN JONES C.G. | Breuddwydion Bro Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth |
| 178.11.24 | CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY | Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chefnogi'r cais yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio. |
| 179.11.24 | CLEAR COUNCILS UK | Yswirio gwaith Howard Bowcott Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chytuno i dalu'r ychwanegiad yn y primiwm blyneddol. |
| 180.11.24 | UN LLAIS CYMRU | Codiad cyflog 2024-25 Graddfa cyflog 2024-25 Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth |
| 181.11.24 | DEWI WYN OWEN C.G. | Ymateb i E8.7.24 Llwybr Peniel Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth |

| | | |
|-----------|----------------------|--|
| 182.11.24 | IWAN EMLYN DAVIES | Eiddo gwag yn ôl i ddefnydd Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gyrru rhestr o'r holl siopau sydd wedi newid dwylo/ pwrpas yn ddiweddar. |
| 183.11.24 | LLYWODRAETH CYMRU | Swm priodol o dan A137 2025-2026 Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth |

184.11.24 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

| | | |
|----------------|----------------------------------|------------|
| H.S.B.C. | Llog Banc Medi Hydref 2024 | £55.86 |
| CYNGOR GWYNEDD | Incwm meysydd parcio 4/24 i 9/24 | £11,447.58 |

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio:-

| | | | |
|----|------------------------------|---|-----------|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Hydref 2024 | £ 67.23 |
| 2 | Clerc | *Cyflog Clerc Hydref 2024 Yn cynnwys ôl-daliad cyflog £440.88 ers 1.4.24 | £1,950.14 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Hydref 2024 | £487.54 |
| 4 | Clerc | Ad-daliad 20 x stamp 2il ddsbarth | £17.00 |
| 5 | Clerc | Ad-daliad goleuadau Nadolig Turnock | £164.40 |
| 6 | CircoArts | Gweithdy llusern Nadolig y Clwb Ieuenctid | £250.00 |
| 7 | Defib Store Ltd | Diffibriliwr a chabinet i'r Ganolfan | £1,537.44 |
| 8 | Ashley Hughes Cyf | Dyddiadur desg 2025 | £7.19 |
| 9 | Phil Price | Cywiro problemau gyda'r gliniadur | £120.00 |
| 10 | Clerc | Ad-daliad am 20 x poster Nadolig Bear Print | £18.80 |

*Graddfa cyflog newydd ers 1.4.24 = £19.20 yr awr x 24 x 52 / 12 = £1996.80 (cyn treth)

£1996.80 - £1,923.32 (cyflog blaenorol)= £73.48
£ 73.48 ychwanegol bob mis o Ebrill i Medi = £440.88

Felly cyflog mis Hydref = £1996.80 + £440.88 = £2437.68 - Treth @20% = £487.54
= £1,950.14

(Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35

Marian Roberts

(Clerc)

14.11.24

